YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] GORPHENAF, 1886. [RHIF 59.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

DIM OND UN BAI.

YR wyf yn myned i ysgrifenu hanesyn—hanesyn nad oes ei debyg wedi ei ysgrifenu yn aml gan neb. Nid hanesyn yw am undebau dedwydd a seiniau melusion clychau priodasol. Mae yn y byd, fodd bynag, lawer gormod o hanesion cyffelyb, gormod i'w pasio drosodd yn ddisylw, os gwelir yn rhywfodd eu bod yn rhybudd i rywrai. Mae bywydau ereill, os darllenwn hwy yn iawn, gystal â'r pregethau goreu a bregethwyd erioed, ac nid yw hwn o eiddo Megan Morris ond yn rhy wir, ac etto, fe ddechreuodd yn felus iawn, yn debyg i ryw hen fugeilgerdd swynol. Yr oedd hi wedi syrthio mewn cariad, ac yr oedd y gwr ifanc wedi syrthio mewn cariad o hono yntau. Nid oedd yn perthyn i'w chariad *ddim ond un bai.* Yr oedd yn ifanc, yn ddewr, yn llawn arabedd; yr oedd yn hardd, yn garedig; yr oedd ei gariad yn ddefosiwn, a'i gyfeillgarwch yn llawer mwy nâ geiriau; yr oedd yn ddyn o athrylith a gallu mawr. Yr oedd Megan felus, fwyn, i'r hon yr oedd wedi gwneuthur ei ymrwymiad, wedi ei hennill trwy bennill a thrwy gân, a thrwy rin ei lygaid hyawdl, yn hir cyn iddo dori'r mater wrth ei thad. Nid oedd gan ei thad ddim ffydd yn y gwr ieuanc. Yr oedd un bai Edward Morris yn ngolwg ei thad yn gorfantoli ei holl rinweddau, a gwrthododd ei gais yn bendant ac ar unwaith, gan roddi ei resymau yn amlwg ac eglur, ond gyda phob tynerwch.

"Chwi fyddwch yn feddwyn, Edward Morris," ebe'r hen wr, gan siglo ei ben yn ddifrifol iawn. "Yr wyf wedi gweled dynion athrylithgar yn teithio'r un llwybr o'r blaen; yr wyf wedi dywedyd yn fynych fod yn well genyf heb dalent yn fy nheulu, gan ei fod yn ymddangos mor sicr yn arwain i oferedd."

Teimlodd y boneddwr ieuanc ei hunan yn cael ei *insultio*, ac atebodd yn boeth—wedi hyny yr oeddynt yn elynion.

Dyoddefodd Megan yn chwerw; carai ei thad, a charai Edward; anufuddhau i'w thad neu dori calon Edward oedd yr unig ddewisiad wedi ei adael iddi.

Cyfarfyddai á'i chariad yn ddirgel, yn groes i ewyllys ei thad; ond am hir amser, gwrthodai'n bendant ei geisiadau taerion i'w briodi er gwaethaf ei thad. O'r diwedd, wedi ei ddigloni gan ei chyndynrwydd, cyhuddodd Edward hi o fod mewn ofn i gymmeryd rhan yn ffawd un mor gymharol dlawd—un ag oedd dan orfod i weithio ei lwybr ei hunan i fyny i serth riwiau bywyd yn gwbl ddigynnorthwy. Suddodd y cyhuddiad anhaeddiannol yn ddwfn i'w chalon wresog, a than gynhyrfiad disymwth tynerwch a chydymdeimlad, rhoddodd iddo yr addewid ag oedd am gyhyd o amser wedi ei geisio yn ofer. Aeth yn briodas. Ysgrifenodd Megan lythyr hir at ei thad, ac yn llawn cariad gwresog, yn taer ymbil am ei faddeuant, ond diffoddodd yr ateb bob gobaith oedd yn ei mynwes.

"Fel yr ydych wedi hau, mae'n rhaid i chwi fedi," oedd y geiriau ysgrifenodd yr hen wr yn ol, "nid oes genyf fi'r un ferch mwy." A gwyddai Megan (yr oedd wedi colli ei mam er ys blynyddau) nad oedd ganddi trwy yr holl fyd neb mwy ond ei gwr, er mwyn yr hwn yr aberthodd ei chartref, a'i chyssur, a'i ffawd dda—ïe, ac amddiffyniad tyner ei thad anwyl.

Yn y dyddiau boreu hyny, gwnelai Edward ei oreu i wneuthur i fyny am bob diffyg, ac yr oedd hi mor falch o hono, ac mor anwyl o hono, fel y darfu yn fuan annghofio ei gofid.

Clywai ei enw yn cael ei seinio mewn clod gan bawb. Gwyddai nad oedd ganddo ond parhau yn ddiysgog yn y blaen, er esgyn i fyny i'r eisteddle anrhydeddusaf yn nhemlau uchel clod, ac am flwyddyn ni welodd hi un achos i ofni yn nghylch ei lwyddiant. Yn awr ac yn y man, yr oedd rhyw wresogrwydd yn ei lais ac yn ei ddull, rhyw oleuni dyeithr yn ei lygad, rhyw ddylifiad anarferol o hyawdledd yn ei siarad—yr oedd y pethau hyn yn awgrymu ei fod dan ddylanwad y peth yfed; ac etto, nid oedd hyn oll ond megys yn cynnyddu swyn ei bresenoldeb. Gallasai Megan bron chwerthin ar bregethau y Temlyddion a gwyr y Rhuban Glas, yn nghylch y drwg fyddai yn sicr o ddeilliaw oddiwrth y peth yfed. Pe gellid stopio'r stori yn y fan hon—stori hanes gwirioneddol bywyd Megan—gallem bron ei gyfrif yn un hapus. Ond ah! y llethr heulog ar hyd yr hwn yr ymddangosai mor hawdd i fyned, aethai yn dywyllach, dywyllach, fel yr oedd y blynyddau'n pasio. O'r braidd y gwyddai sut yr oeddynt wedi dechreu awgrymu iddi y dynghed chwerw oedd o'i blaen.

Daeth fflach bychan o gywilydd yn gyntaf, pan oedd ei gamrau yn sigledig a'i lais yn uchel. Yna, deigryn neu ddau, pan oedd dipyn yn afresymol. Yna'r tristwch a gadwai ei chalon mewn poen ddydd a nos; yr oedd y deall a ddygai ei ysprydoliaeth ar y cyntaf oddiwrth y *glass*, yn awr wedi ymgolli yn ei ddyfnderoedd.

Yr oedd y dyledion yn cynnyddu, a'r *credit* yn lleihau. Gorfu arnynt roi i fyny en tŷ, a myned i un oedd lai. Daeth nodau tlodi ar wisg Megan, a dechreuai'r penelin fyned allan trwy got Edward, a

bysedd ei draed ddangos trwy flaenau ei esgidiau. Yr oedd yn feddw o'r boreu hyd nos; ac etto, hi a'i carai, a glynai wrtho, ac ar adegau sobr, yr oedd mor anwyl ag erioed. Weithiau fe ddeffroid yr hen nerth a'r hen obaith ynddo, a gwnelai ymgais i ennill y safle a gollodd, ond oll yn ofer; ac yn mhen pum' mlynedd o ddydd ei phriodas, gydag un plentyn bychan (yr oedd un wedi marw o fewn blwyddyn i'w enedigaeth), gellid ei gweled yn y tlotaf o dai, ac mewn cyflwr yn ymylu ar fegerdod.

Yr oedd Edward wedi tori pob adduned. Yr oedd wedi cyflwyno ei holl gyfoeth bydol i'r cythraul gwancus hwnw—y peth yfed. Yr oedd ei gariad wedi myned yn rhywbeth nad oedd werth ei gael, ac etto, hi a'i carai, a glynai wrtho. Ceisiai weithiau oeri ei theimlad, a bod yn galed, ond ni thyciai. Ceisiai annghofio yr ergyd roddodd iddi, a'r llwon a wnelai, ond atebai iddi ei hunan wrth wneuthur hyny, "Nid efe, ond y *whiskey*." Clywai ei gamrau anwastad ar yr heol, a thorai y dagrau allan.

"O'r anwyl, anwyl," meddai ambell waith, pan feddyliai am y cyfnewidiad o'r peth oedd i'r peth yw, ac am yr achos o hono oll; ei fod yn ngeiriau Shakespeare, "Wedi dodi y gelyn yn ei enau i yspeilio ei hunan o'i ymhenydd." Meddyliai am dano yn ymrolio ar hyd yr heol, ac ofnai i ryw ddrwg ddygwydd iddo.

Gosododd ei *shawl* am ei phen, a chychwynodd allan yn frysiog i waered i'r heol oedd yn llawn o ddiwydrwydd, ar y nos Sadwrn neilldduol hwn, gan ddynion tlodion yn myned a d'od o'r farchnad.

Ychydig o'i blaen, gwelai ffurf anwastad a sigledig ei gwr; a hithau yn foneddiges o natur a dygiad i fyny, clywai wragedd pobl dlodion yn rhybuddio eu plant i ochelyd y dyn meddw.

Cyn y daeth i'w ochr, dywedodd, "Edward! Edward!"

Trodd ati'n araf, ac edrychodd arni. "Ti!" meddai, "ti ddylit fod gartref yr amser hyn o'r nos."

"Felly dylem ein dau," ebe hithau: "dewch, Edward."

Gwthiodd ei llaw ymaith, a dywedodd, "Yr wyf yn feistr arnaf fy hunan, goeliaf; 'dydw I ddim yn myned i gael fy nghylymu wrth linyn ffedog menyw!" ac aeth i ffwrdd drachefn. Drachefn a thrachefn, ceisiodd ddeffroi yn ei feddwl adgofion boreu, pan yr oedd ei gariad a'i amddiffyniad yn eiddo iddi. Yn ofer, yr oedd dychymygion gwylltion yn llanw ei ymhenydd. Weithiau, gwthiai hi oddiwrtho, ac weithiau, cofleidiai hi, gan geisio am ragor o'r gwlybwr meddwol, ond adref nid elai. Teimlai Megan yr oerfel yn myned bron at ei chalon, a'i nerth i symmud bron yn ei gadael, pan, o'r diwedd, y clywodd gloc y dref yn taro pedwar, ac ymunionodd y dyn, a llusgodd adref o'r diwedd. Dylynodd ef yn wan, gan ddal ei hunan i fyny wrth rywbeth allai osod ei llaw arno. Yr oedd ei gwr yn fuan yn cysgu. Yn mhen tuag awr, syrthiodd hithau i drwmgwsg. Yn ei chwsg, teimlai fel pe byddai ei holl ofid wedi diflanu, ac am dipyn, bu'n mwynhau breuddwydion melus. Ond yn y man, deffrowyd hi gan swn uchel cloch y gwaith, a swn llefaru a chrio yn yr heol islaw. Trodd ei llygaid at y gwely—nid oedd ei gwr yno. Aeth at y ffenestr, yr oedd yr heol yn

llawn o fechgyn yn curo padelli alcan, ac yr oedd rhywbeth yn peru eu bod yn llawen a dyfyr iawn. Rhuent, dawnsient, taflent eu capiau i fyny, ac ysgrechent mewn math o chwerthin anmhersain. Yr oedd gwrthddrych yr holl lawenydd ynfyd hwn yn amlwg iddi.

Yn wyllt gan ddychryn, rhuthrodd allan i'r heol, ac at y fan lle y safai ei gwr; ond cyn iddi ei gyrhaedd, yr oedd agwedd pethau wedi newid. Yr oedd rhyw fachgen mwy barbaraidd na'r lleill wedi bwrw llonaid llaw o bwdel i wyneb Edward Morris, ac yntau megys wedi ymgynddeiriogi, yn rhuthro i ymddial arno.

Ac yn awr, dyna'r holl dwr o fechgyn yn gwneuthur ymosodiad ar y dyn meddw, ac yn ei beltio â choed a cherryg, a phethau bryntion o ymyl yr heol, ac megys yn ynfydu yn eu llawenydd barbaraidd. Nid oedd hi'n talu fawr sylw i hwtian gwawdus y *mob*, ond yn eu gwydd i gyd, mae yn taflu ei breichiau am dano, ac yn gosod ei hunan hardd rhyngddo a'i ymosodwyr; a gosod ei phen, yr hwn oedd wedi ei gario ganddi cyn hyn yn uchel ac yn falch feallai yn ngwydd mawrion y wlad—gosododd y pen hwnw i orphwys yn isel ar fynwes yr adyn meddw oedd yn wawd a dirmyg y *mob*, ac mewn cariad a thosturi yn unig, ac nid mewn dig, y dywedodd wrtho, "Deuwch adref, Edward; deuwch adref gyda fi, hwy a'ch niweidiant.

Ynfyd fel yr oedd, a llawn o gythreuliaid y peth yfed, a hollol fyddar i'r enaid a roddes Duw, ni wnaeth y llais tyner, melus, a'r cyffyrddid anwyl a charuaidd fawr i ddeffroi adgofion y gorphenol yn mynwes y dyn.

"Cerdd di adref, ferch," meddai "cerdd di adref; mi a'u lladdaf! Paid ti blino, mi a'u lladdaf!"

"Deuwch adref, fy Edward anwyl," meddai hithau drachefn. Arosodd, a rhoddodd gusan iddi, yr hyn a barodd i'r bechgyn waeddu drachefn yn wawdus, a thaflu mwy o fwd ac o gerryg atynt. Taflodd un o honynt garreg fawr. Pa un a fwriadai daro Edward neu beidio, ni wyddys; ond tarawodd ei wraig, nes llifo'r gwaed coch o'i phen, a syrthio o honi i godi byth, byth mwy. Gyda math o reddf, aeth ei llaw allan am y dyn oedd wedi addunedu ei charu a'i meithrin, ond oedd wedi tori pob adduned, tra'r oedd hi o hyd wedi parhau yn ffyddlon. "Ffarwel, Edward," meddai. "Nis gallaf eich gweled yn awr; cusanwch fi, ac oh! byddwch yn gariadus i'r babi, i'r babi!" a dyna'r cwbl.

Aeth y dyrfa'n fud, a ffodd y rhai euog mewn dychryn. Wedi sobri ychydig, plygai uwchben y fenyw farw, yr hon oedd ei dwylaw wedi syrthio oddiar ei mynwes; cariad, a thynerwch, a ffyddlondeb calon yr hon oeddynt wedi eu hamlygu iddo ar y foment ddychrynllyd hono—wedi eu hamlygu yn ofer, gan nad oedd un edifeirwch allai ei dychwelyd hi i fywyd, na dileu y cariad oedd wedi llethu ei chalon trwy holl ddyddiau blinion ei bywyd priodasol trist.

Gellwch glywed weithiau yn awr ryw lef wyllt a dyeithr yn yr heol, lle mae creadur meddw yn ceisio treiglo tuag adref, ac yn gwaeddu'n drist, "Megan! Megan! Megan!"

Llais Edward Morris ydyw, yr hwn sydd o hyd, yn ei ynfydrwydd meddw, yn ceisio chwilio am ei wraig lofruddiedig—*wreck* ydyw, *wreck* trist, dychrynllyd, torcalonus, o'r hyn a fu unwaith yn ddyn ardderchog athrylithgar, heb arno ond

UN BAI. C. F.

PEIDIO MEDDWI.

Mae genyf gynghor da, mi wn; mae'n gynghor gwerth ei gofio,
O herwydd peidio gwneuthur hwn mae cannoedd heddyw'n cwyno.
Hen gynghor gefais lawer tro ar aelwyd fy rhieni,
Mae'n para etto'n fyw'n y co', sef "Cofia beidio meddwi."

Fe *haera* rhai fod *peth* yn lles i ddyn o'r ddiod feddwol,
Tra *profa* ereill fod y *pres* yn llawer mwy defnyddiol,
Er cadw dyn, tra yn y byd, rhag myned i dylodi;
Ond os gwnai yfed peth ryw bryd, O! cofia beidio meddwi.

Ysmotyn du ar Gymru wen yw meddwdod ei thrigolion,
Ac O! na ellid rhwygo'r llen sy'n dallu eu golygon,
Nes gwel'd yn glir fod meddwdod brwnt yn fammaeth pob drygioni;
Oddiwrth y cyfryw nesa hwnt, a chofia beidio meddwi.

Dy natur oreu fo bob pryd yn ngafael â'r awenau,
Rhag cael dy hudo gan y byd, a'i swynion, a'i bleserau.
Os wyt am ennill clod a pharch, ffieiddia ddrwg gwmpeini;
Bydd byw yn weddaidd hyd dy arch, a chofia beidio meddwi.

J. EVANS.

PAHAM YR WYF FI YN UNDODWR?

GAN JAMES FREEMAN CLARKE.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf, tud.* 127.)

YN awr, yr wyf wedi crybwyll rhai o'r rhesymau paham yr wyf yn Undodwr. Nid o herwydd fy mod am gredu llai yn Nuw, yn Nghrist, neu mewn crefydd, ond oblegyd fy mod am gredu mwy, oblegyd fy mod am feddu mwy o ffydd yn Nuw, mwy o ffydd mewn dyn, mwy o ffydd yn Nghrist, mewn crefydd, yn y Beibl, a mwy o hyder yn muddugoliaeth y cariad Dwyfol ar bob drwg. Ymddengys i mi fod ein golygiadau yn fwy dealladwy nâ'r rhai ydynt wedi eu morthwylio mor fedrus yn *forges* y Canol Oesau. Ond er eu bod wedi eu cyfun-

drefnu a'u cynllunio gyda chymmaint o ofal a medr, athrawiaethau y Canol Oesau ydynt hwy, ac ni pherthynant i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Duw wedi rhoddi i ni gyd synwyr cyffredin; a phan mae yn siarad â ni, appelia at ein *common sense*. Yr oedd Crist yn llawenhau, nid fod ei athrawiaethau yn ddirgelaidd, ond eu bod yn ddatguddiadau, a dywedai, "Yr wyf yn diolch i ti, O! Dad, dy fod wedi cuddio y pethau hyny oddiwrth y doethion a'r deallus, ac wedi eu datguddio i rai bychain." Mae hyn yn brawf, mor bell ag y mae'n myn'd, fod yr athrawiaeth sydd yn ddealladwy yn debygol o fod yn wir. Yr athrawiaeth Undodaidd, hefyd, yw y fwyaf rhesymol, oblegyd nid yw hi yn gofyn arnom i gredu gwrth-ddywediad. Mae yn un sydd yn agor dyfodol mawr i ddynoliaeth. Nid yw yn cau Crist i fyny mewn unrhyw gred, unrhyw eglwys, nac unrhyw blaid. Dywedai yr Iesu am dano ei hun, pan y gofynodd Pilat iddo a oedd ef yn frenin:—"Ti a ddywedaist; yr wyf yn frenin, a dyma fy mreniniaeth. Er mwyn hyn y'm ganed, ac er mwyn hyn y daethum i'r byd, fel y tystiolaethwn i'r gwirionedd. Pob un a'r sydd o'r gwirionedd sydd yn gwrando fy lleferydd I, sydd yn perthyn i mi, a minau iddo yntau." Mae pob dyn gwirioneddol yn perthyn i Grist, oblegyd Crist yw yr amlygiad o ddaioni, pa un a ydyw'r dyn yn gwybod hyny neu beidio. Gall alw ei hun yn *Deist*, yn Inffidel, yn Fahometan, neu yn Frahminiad; ond os yw e'n caru y gwirionedd, os yw e'n ei ganlyn lle bynag y byddo yn ei arwain, yn ceisio gwneyd daioni i'w gyd-ddynion, yn ceisio caru y prydferthwch Dwyfol fwy-fwy, yna mae yn perthyn i'r Iesu, ac mae e'n Gristion heb wybod hyny, a chaiff ei dderbyn felly yn y dydd hwnw. Os nad fel hyna bydd hi, nid yw Matthew xxv. yn cynnwys y gwirionedd, oblegyd yn y bennod hono, mae yr Iesu yn dweyd wrthym beth fydd y farn ar y cenedloedd. Yn y dydd hwnw y cydgesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd, ac yna y dywed efe, "Safwch ar fy neheulaw; yr ydych chwi yn perthyn i mi," a dywedant hwythau, "Nid oeddem ni yn gwybod hyny, ni wyddem ni ein bod wedi gwneyd unrhyw ddaioni i ti." Dywed yntau, "Ydych, oblegyd pan yn newynog, rhoisoch i mi fwyd; pan oedd syched arnaf, rhoisoch i mi ddiod; pan yn ddyeithr, dygasoch fi gyda chwi; pan yn noeth, dilladasoch fi." Dywedant hwythau, "Wnaethom ni ddim o hyny; nid oeddem ni ond ei wneyd i'n cyd-ddynion." Etyb yntau, "Yn gymmaint ag ei gwnaethoch i un o'r lleiaf hyn, i mi y gwnaethoch. Safwch ar fy neheulaw." Dyna freniniaeth Crist, fod pobpeth sydd yn dda ac yn wir yn y byd hwn yn tueddu ato ef, a'i fod ef i deyrnasu nes byddo gwirionedd a daioni o dan ei gyfarwyddyd a'i arweiniad wedi gorchfygu holl alluoedd y drwg. Mae yn ymddangos i mi, gan hyny, fod genym yr hawl i ddweyd ein bod yn Undodiaid, oblegyd fod yr athrawiaeth hon yn ymddangos i ni fel yn agor gwell dyfodol i'r natur ddynol nag un arall. Mae hi yn dda i fyw arni, ac mae yn dda i farw wrthi. Mae, yn sicr, yn dda i fyw wrthi, oblegyd dengys i ni nad yw y byd hwn ddim yn fyd y diafol, ond yn fyd Duw; fod pethau yma yn dda yn eu sylwedd, yn tueddu at ddaioni, ac i ateb dybenion da yn nhrefn Duw. Os oes drwg a

phechod o'n hamgylch, mae hyny er mwyn i ni ymladd â hwy a'u gorchfygu. Mae e'n fyd da i fyw ynddo, pa un bynag ai ydym ni yn dyoddef neu yn llawenhau. Mae Undodiaeth yn gwneyd y byd yn un da i fyw ynddo, oblegyd mae yn dysgu fod Bod anfeidrol dda wedi ei wneyd ar ein cyfer, wedi ein gosod ni yma, ac Efe yw ein Rhagluniaeth, ein tarian, a'n hamddiffyn am byth.

Mae yn grefydd dda, hefyd, i farw ar ei phwys, yr oreu o bob crefydd, fel yr ymddengys i mi. Yr wyf yn gosod i mewn y cyfyngiad hwn; fy marn fy hun yr wyf yn roddi i chwi. Mae yn grefydd dda, ynte, i farw ar ei phwys, y grefydd oreu yn y cyfwng hwnw, oblegyd dywed wrthym ei bod yn beth da i farw pan mae marw yn dyfod, ac nid yn beth drwg. Nid ydyw angeu yn frenin y dychryniadau i ni; mae yn gyfaill. Gan fod Duw wedi anfon marwolaeth i'w holl greaduriaid, yn gymhwys fel mae wedi anfon bywyd i'w holl greaduriaid, mae'n rhaid fod marwolaeth mor dda, pan y daw, ag yw bywyd, pan mae'n aros gyda ni. Yr ydym yn credu yn y cariad anfeidrol, yr hwn sydd yr un yn y byd arall ag yw ef yn y byd hwn. Yr ydym yn credu fod trugaredd yr Arglwydd yn parhau yn dragywydd, ac nid yn unig am dri ugain a deg o flynyddoedd byrion y bywyd hwn. Yr ydym yn credu y byddwn, trwy y tragwyddoldeb mawr, fel mewn amser, yn cael ein hamgylchynu gan y gras Dwyfol, yn cael ein meithrin yn mreichiau y tynerwch bendigedig, ac felly ein bod yn ddyogel yn mhob man, tra yn ymddiried yn Nuw ac yn gorphwys arno. Ac fel yr ydym yn cael nad yw'r trychfilyn bychan yn moroedd y trofanau ddim yn cael ei ddwyn i fodolaeth o dan Ragluniaeth, heb fod lle wedi ei drefnu iddo yn gartref yn flaenllaw, a holl gyflyrau bywyd wedi eu darparu yn ofalus cyn ei eni; felly, gallwn fod yn sicr am danom ein hunain, y rhai ydym yn well nâ hwy, fel y dywed yr Iesu, ac yn agosach at galon Duw. Pan y pasiwn ni yn mlaen yn ei Ragluniaeth i'r byd arall, bydd yno, o leiaf, gymmaint o ofal am danom ni, cystal darpariaeth wedi ei wneyd ar gyfer ein derbyniad, a chartrefi mor dda ac mor gymhwys at angenion ein natur, ag sydd yma. Dywedai'r Iesu wrth ei ddysgyblion, "Yn nhŷ fy nhad mae llawer o drigfanau, a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi." Mor naturiol oedd hi eu bod yn credu hyny, er nad oedd e' wedi dweyd wrthynt! Ond ni chymmerodd ef ddim trafferth i ddweyd wrthynt, gan ei bod felly. "Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi, ac os myfi a äf ac a barotoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi ataf fy hun, fel lle yr wyf fi y byddoch chwithau hefyd." Yr ydym yn cael, yn y geiriau hyn, brawf y bydd yn y byd arall fel yma gartrefleoedd wedi eu gwneyd yn barod i ni, ac na therfyna cyfeillachau y byd hwn gyda'n mynediad ni oddiyma. Ni allasai yr Iesu fyw yn y nefoedd heb gael ei hen gyfeillion gydag ef yno. Ni allasai yfed cwpan llawenydd wrtho ei hun yn y byd nefol. Os oedd y bywyd sanctaidd hwn yn gofyn, er mwyn ei lawn foddlonrwydd a'i berffeithrwydd, fod y bywyd daearol hwn yn cael ei gario drosodd yno, ac na fyddai iddo gael ei wahanu oddiwrth ei gyfeillion yn y byd nefol, gallwn fod yn sicr fod yr un ddeddf Ddwyfol yn gymhwys atom ninau

a'r oll ydym yn garu. Ac felly, gallwn deimlo yn ddyogel a dedwydd, pan y geilw yr Arglwydd ni ymaith, oblegyd yr ydym yn gwybod mai yr un cariad anfeidrol fydd yn dysgwyl am danom ni yno sydd wedi ein hamgylchynu ni yma, ac mai yr un Rhagluniaeth ryfeddol sydd wedi trefnu ein bywyd dynol a drefna ein bywyd yn y byd tuhwnt i'r bedd; ac y bydd yr un serchiadau melus a thyner, y rhai mae Duw wedi blanu yn ein calonau, yn dysgwyl am danom yn y cylch newydd a rhyfedd i'r hwn y gelwir pob un o honom yn amser Duw.

Dyna ychydig o'r rhesymau, am y rhai yr wyf fi yn barod yn awr fel o'r blaen i alw fy hun yn Undodwr, a'r rhai wyf yn fwriadu, gyda chymhorth Duw, i'w cymhell gyda phob cyfleusdra i sylw a chymmeradwyaeth fy nghyd-ddynion. *Cyf.* UNDODWR.

PROFIAD YR AFRADLON.

YN orchudd mae f' enaid dan dduon gymmylau;
Fy meddwl yn orwyllt, a'm mynwes yn fflamau;
Fy ngwaed sydd yn berwi fel môr yn gynddeiriog,
Nas gall ei lonyddu ond Duw Hollalluog;
Fy llygaid yn wylltion, a'm 'mhenydd yn eirias;
Fy nghorff a fy enaid ar ddibyn galanas;
Mae'r dydd fel nos-ddu yn llawn drychiolaethau;
Yn awyr fy meddwl mae pob aflan bethau;
Ar edyn corwyntoedd daw fflamau Gehena,
A'u sawyr brwmstanaidd sydd bron, bron a'm difa;
Fy esgyrn sy'n pydru dan bwysau gwasgfeion;
Marwolaeth sy'n tremio fel un o'r ellyllon;
Curiedig yw'm pabell—mae hon yn adfeilio:
Mae stormydd angeuol o bob tu yn taro;
Mae'r wlad 'rwyf yn aros yn llawn o fwystfilod,
A'r awyr yn goch-ddu, heb seren i'w chanfod;
Y ddaear heb flodau na glaswellt yn tyfu,
Ond moel fel y creigiau yw'r cwbl o'm deutu;
Pob bod a chreadur yn byw ar gelanedd,
Eu trem yn orwancus—yr oll mewn cynddaredd;
Brawychdod ofnadwy sydd wedi'm gorlenwi:
Marwolaeth a newyn o'm cylch yn teyrnasu!
O! Iôr, rho attalfa ar ingoedd fy yspryd,
O'th ras a'th drugaredd cyfrana im' fywyd.

Mae hen ddelweddau tŷ fy Nhad,
Blodionos teg a bryniau'r wlad,
Ar lech y galon hon;
Y gornant fach a'i murmur hi
Fel nefol fiwsig oedd i mi
Pan oeddwn gerllaw hon.

Cyn imi gychwyn o fy ngwlad,
A gadael aelwyd glyd fy Nhad,
Mor ddedwydd oedd fy mron;
Y bwrdd yn llawn o seigiau brâs,
Heb i'n cythryblu elyn câs,
Ond pawb â'i wedd yn llon.

Mae adgof am yr hyn a fu
Yn codi hiraeth ynof fi
Yn fyw y funyd hon;
Mi godaf—d'wedaf wrth fy Nhad
Am dwyll fy nghalon ddua 'i brad,
A syrthiaf ger ei fron.

Fy nagrau sieryd wrtho'n hy',
Rho'nt gyfrol o fy hanes I,
Yr adyn brwnt ei liw;
Erfyniaf, drwy riddfanau cry',
Am iddo beidio'm damnio I,
Yr euog gwael a gwyw.

Gobeithio y gwelir fi etto, ryw adeg,
O amgylch palasdy fy Nhad yn ehedeg,
Fel c'lommen ddiniwed yn gwneuthur fy lletty,
Gan aros byth mwyach yn ei hoff ffenestri.*

Erfyniaf gymhorth, anwyl Dad,
I dd'od yn ol i dir fy ngwlad,
I beidio crwydro mwy;
Ond aros dan dy aden gref,
Nes y cyrhaeddaf nef y nef,
Uwchlaw pob loes a chlwy'.

D. Byron Lewis.

EBION O IOWA.

COSPEDIGAETH PECHOD.

(O'r "Drych" Americanaidd.)

Rhif III.

Meddylier yn ddwys a difrifol mor ofnadwy o greulon yw y golygiad mai angerddol ing yn oes-oesoedd sydd yn sicr o fod i bawb ond yr ychydig sydd yn marw yn dduwiol yn ol y safon orthodoxaidd! Sylwer dipyn yn fanwl beth yw

Y TEIMLAD CYFFREDIN AM HYN.

Y syniad erchyll hwna barodd i Beecher ddweyd—"*If God does so with mankind, I defy you to think of a worse devil.*" Os yw Iesu Grist yn

---

* Esaiah lx. 8.

dysgu y fath athrawiaeth *yn eglur*, fel y dywed rhai, paham y dywed dynion fel y diweddar Albert Barnes am dano, "*Dark, Dark, Dark!*" a dynion fel y Parch. W. R. Jones, Wis.,—"Y mae yn rhaid addef fod y pwnc yn cael ei amgylchu gan niwl a thywyllwch?" Paham y mae miloedd o ddysgedigion Ysgrythyrol, ar ol chwilio yn onest a manwl, yn methu yn lân a gweled fod y Testament Newydd yn dysgu y fath athrawiaeth wrthun, ond yn unig trwy roddi ystyr eithafol a dirdynol iawn i'w frawddegau barddonol, ffigyrol, a dammegol ar y mater? Paham y mae y rhai sydd yn pregethu y fath syniad yn gallu chwerthin mor llon yn aml gyda phobl sydd (yn ol eu pregethau hwy) bob munyd ar fin ceulan y fath bwll o anobaith? Paham y mae mwy nâ hanner y Cymry, i'r rhai y pregethir y fath athrawiaeth, yn troi draw bob nos Sul pan elwir "y Seiat ar ol," gan roddi prawf ymarferol nad ydynt yn credu y fath beth, er yr oer-addefant mai dyna eu credo? Paham y mae miloedd o bleidwyr y fath athrawiaeth yn methu yn lân a chredu am eu hanwyliaid ymadawedig hwy, eu bod yn y fath fythol arteithiau, er y gwyddant eu bod wedi marw tuallan i gylch bach cul cadwedigaeth, yn ol y pregethu cyffredin? Paham nad äi pawb yn wallgof uwchben y fath berygl dirfawr, fel y mae ambell un yn myned pan safo yn ddifrifol uwchben y fath uffern ar ol gwrando dynion fel Hammond y *Revivalist?* Ie, paham hefyd? Onid am fod rheswm a greddfau moesol y galon ddynol yn gryfach nâ'r holl ffug-gredöau a ddysgir mor gyffredin, a bod dwfn a dirgel ymsyniaeth agos yn mhawb, wedi yr holl siarad, sydd yn aml yn amheu a ydyw "Tad y trugareddau" mor ofnadwy greulon tuag at y mwyafrif mawr o'i ddynol blant.

Gymmaint o le sydd i fanylu ar bob un o'r pahamau uchod. Hawdd fyddai ysgrifenu cyfrol fawr arnynt. Ac y mae yr ystumio ar yr hen gredo am uffern sydd mor gyffredin yn awr, yn argoeli yn amlwg na all y fath syniad gwrthun am Dduw ddal heb gywilyddio yn ngwyneb goleuni cynnyddol yr oes. Ac y mae digon o le i ofni fod pregethu y fath greulondeb eithafol yn prysur yru miloedd o bobl i'r eithafedd arall, sef i feddwl nad yw cospedigaeth pechod yn ddim ond ffug dychymygol.

Pe gelwid sylw at ffeithiau amlwg a deddfau annhyblyg Duw, yn anianyddol a moesol, gwelai pawb na all yr un troseddwr o honynt ddianc heb ei gyfiawn gosp.—Diamheu genyf fod y Testament Newydd yn dysgu fod

COSPEDIGAETH PECHOD YN DRAGWYDDOL.

Hyny yw, ei fod yn *ysprydol*, heb fod yn gyfyngedig i unrhyw *amser* neu *le* arbenig. Nis gallaf weled fod a fyno angeu ddim â newid cymmeriad dyn, na newid deddfau moesol Duw o berthynas iddynt. Mae y byd tragwyddol—hyny yw, y byd ysprydol—o'n cylch bob munyd yn awr; dynion yn "cymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol" yn awr, ac mae yn bossibl i ddynion fod yn "ddamniol eisoes," yn

bresenol. Nid ar ol marw yn unig y mae "myned i'r bywyd tragwyddol," neu i "gospedigaeth tragwyddol." Mae syniad y cnawd yn farwolaeth dragwyddol, a syniad yr Ysbryd yn fywyd a thangnefedd tragwyddol yn y byd presenol fel yn y dyfodol.

Ansawdd, yn hytrach na *pharhad diddiwedd* bywyd neu farwolaeth, a olygir odid amlaf yn y Testament Newydd wrth y gair "tragwyddol." Diau yr arferir y gair hefyd yn y Beibl i olygu *parhad hir*. Weithiau parhad hir *terfynol*, megys pan ddywedir fod Canaan i had Abraham yn "etifeddiaeth dragwyddol;" a bod deddf y caethwas Hebreig yn "ddeddf dragwyddol." Terfynodd y ddau "dragwyddol" hyny, a llawer o bethau tragwyddol ereill.

Ond pe golygid parhad bythol yn y gair—[Diffyg yn y copi.]

* * * * * *

terfyn i

"HEDDYW" DUW.

Penderfynol wyf fi fod adegau cyfleus ac "amser cymmeradwy" i wneyd pethau, a bod yn hawdd bod yn Rhy Hwyr (*"Too Late!"*) gyda phethau pwysig. Ac mai dyledswydd holl athrawon crefyddol yr oes yw gosod allan yn ofalus y perygl o esgeuluso adegau priodol, ac mai "yn *awr*" yw yr amser goreu i wneyd gwaith heddyw; ond am benderfynu fod pob gobaith am drugaredd Duw, a phob cyfleusdra i ddiwygio yn darfod gyda phob dyn pan dyno ei anadl olaf yn y corff hwn, nid wyf yn cwyllysio bod o nifer y rhai a roddant "derfyn i Sant Israel" yn hyny. Gwell genyf gredu y pery trugaredd Duw yn dragywydd, yn gystal a'i gyfiawnder. Ni welaf ddim yn y Beibl yn dysgu mai cyfiawn heb drugaredd fydd Duw tuag ataf ar ol i mi farw, mwy nag y gallaf weled mai trugarog heb gyfiawnder ydyw efe at unrhyw un yn y fuchedd hon. Gwn fod y Beibl yn llawn o rybuddion anwyl i bawb ragbarotoi at bob dyfodol, ac yn amlwg ddysgu y rhaid i'r esgeuluswr gymmeryd y canlyniadau; ond wedi i rai cyfleusderau basio, heb fodd byth eu cael yn ol, mae Duw mor dirion tuag at ei blentyn dynol, dwl, nes rhoddi iddo ryw gyfleusderau ereill, a hyny yn aml iawn.

Yr wyf yn addef yn rhwydd y gellir dyfynu llawer o adnodau o'r Beibl a *ymddangosant* yn bleidiol i'r syniad cyffredin orthodoxaidd am gospedigaeth pechod, yn enwedig i'r neb a elo i'r Beibl o bwrpas i chwilio am adnodau felly, ac a gymmero yr adnodau barddonol hyny mewn ystyr lythyrenol. (Gellir profi agos unrhyw beth ynfyd o'r Beibl yn y dull hwnw.) Ond yr wyf yn gostyngedig dybio nad yw y Llyfr bendigedig hwnw yn dysgu y syniad anferthol greulon hwnw am Dduw, os cymmerir y Beibl yn ol ei *ysbrydol* a'i ffigyrol ddull o ddysgu, ac yn ol cyssondeb ei wahanol ranau. Yn fy Ebion nesaf, bwriadaf ddangos pa un o'r ddau syniad am gosp pechod sydd fwyaf *peryglus;* a beth am *Anffaeledigaeth* ar y pwnc.

Marion, Iowa, Gorphenaf 12. R. L. HERBERT.

UNDEB GWEINIDOGION UNDODAIDD CEREDIGION.

Mae darllenwyr Yr Ymofynydd wedi deall, trwy hyspysiad a wnawd yn rhifyn Mai, fod yr Undeb uchod wedi ei ffurfio. Mae y cyfarfod cyntaf yn awr wedi pasio, a buasai hanes o hono wedi ymddangos yn rhifyn Mehefin, oni b'ai fod yr adroddiad a anfonodd yr ysgrifenydd, trwy ryw amryfusedd, wedi myned i golli yn y swyddfa neu yn y gymmydogaeth. Cynnaliwyd cyfarfod cyntaf yr Undeb dydd Mercher, Mai y 19eg, yn Llanffynnon, preswyl baradwysaidd y Parch. W. Rees, Rhydygwin. Yr oedd y chwech gweinidog sydd yn llafurio yn rhanbarth Undodaidd Ceredigion yn bresenol. Yr oedd y cyfarfod yn bobpeth a allesid ddymuno. Dechreuwyd y gweithrediadau am 11 o'r gloch, trwy ddarllen a gweddi gan y Parch. Thos. Thomas. Pasiwyd yn unfrydol fod y Parch. T. Thomas i fod yn gadeirydd yr Undeb, y Parch. W. Rees yn is-gadeirydd, a'r Parch. W. James yn ysgrifenydd. Cytunwyd fod yr Undeb i gyfarfod bob tri mis, a'r tro nesaf yn Criborfawr, Llandyssul. Ar ol gosod i lawr ryw chwech o reolau, er cario yn mlaen yn drefnus y gweithrediadau, awd yn mlaen at waith priodol yr Undeb. Penderfynwyd, yn gyntaf, fod cyfres o chwech o bregethau ar rai o brif bynciau y ffydd Undodaidd i gael eu traddodi yn nghapeli yr Undeb yn ystod misoedd Mehefin a Gorphenaf, a bod y gweinidogion i newid â'u gilydd yn y fath fodd fel y byddo pob cynnulleidfa yn cael cyfleusdra i wrando ar yr holl gyfres. Trefnwyd y pynciau fel y canlyn :—"Nefoedd ac uffern," gan y Parch. T. Thomas; "Pechod ac iachawdwriaeth," gan y Parch. W. Rees; "Y diflanol a'r parhaol mewn crefydd," gan y Parch. J. Davies; "Ystyr croes Crist," gan y Parch. R. C. Jones; "Y Beibl," gan y Parch. W. James; "Dyn yn hiliogaeth Duw," gan y Parch. W. E. Davies. Dechreuwyd ar y gyfres Mehefin y 6ed, a da genym sylwi fod llawer iawn o ddyddordeb yn cael ei deimlo gan ein cynnulleidfaoedd yn y symmudiad, a gobeithiwn y byddwn yn alluog i gofnodi ar y terfyn, yn Yr Ymofynydd, ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn mhob ystyr. Penderfynwyd, yn ail, yn ngwyneb y diffyg addysg yn ein hegwyddorion fel Undodiaid sydd yn bodoli yn ein Hysgolion Sul, fod *Manual of Unitarian Belief*, gan James Freeman Clarke, i gael ei gyfieithu i'r Gymraeg, a'i gymmeradwyo fel *text-book* i'r ysgolion. Ymgymmerodd Mr. Thomas â'r cyfieithad, ac addawodd wneyd ei oreu i'w gael yn barod gyferbyn â'r cyfarfod nesaf, pryd y gwneir trefniadau er mwyn ei argraffu. Penderfynwyd, yn drydydd, fod gwasanaeth i'r plant i gael ei gynnal ar un Sul bob tri mis, i gymmeryd lle y gwasanaeth arferol yn ein holl gapeli; fod cor plant i gael ei ffurfio yn mhob capel, i barotoi y gerddoriaeth ar gyfer y gwasanaeth; a bod anerchiad i'r plant i gael ei roddi gan y gweinidog ar yr achlysur. Dyna'r penderfyniadau ag y cymmerodd ryw bedair awr i'w trafod a'u gosod mewn ffurf. Fel undeb, nis gallwn wneyd ond trefnu a chymmeradwyo. Mae llwyddiant y cynlluniau yn ymddybynu ar gydymdeimlad a chydweithrediad y cynnulleidfaoedd, ac yr

ydym yn gobeithio y gwnant hwy eu rhan gyda'r un teimlad unfrydol a brwdfrydig ag oedd yn nodweddu cyfarfod cyntaf yr Undeb. Terfynwn, ar ran yr Undeb, gyda gair byr ond calonog o ddiolchgarwch i Mr. a Mrs. Rees am eu caredigrwydd gwresog yn noddi y sefydliad yn ei gryd.

W. JAMES.

[Yr ydym yn mawr gymmeradwyo yr arwydd newydd hwn o waith ar ran ein gweinidogion, ac yn gobeithio y gwnaiff ein cynnulleidfaoedd gyfarfod â'r ymdrech yn yr yspryd iawn, fel y byddo yn llwythog o ddaioni mawr yn yr ardal. Y mae'n sicr o fod eisieu mwy o weithgarwch yn ein heglwysi, ac eisieu mwy o'r yspryd crefyddol fydd yn ffrwytho mewn sel fyw dros les eneidiau. Goleuer y deall, wrth gwrs, ond ceisier hefyd sicrhau mwy o ddyfnder i'r yspryd. Da genym fod bwriad i gyhoeddi llyfr yr enwog Dr. Freeman Clarke, a gobeithiwn y gwnaiff ein darllenwyr eu rhan i gael lledaeniad helaeth arno. Ceir manylion cyn hir.—GOL.]

PRYDER DI-ALW-AM-DANO.

A DDARFU i chwi erioed orwedd ar ddihun dros hanner y nos, gan flino eich ymhenydd a'i aflonyddu, rhag y buasai i rywbeth diflas ac annymunol gymmeryd lle tranoeth; ac yna, pan ddaeth y boreu yn glir a phrydferth, gael fod eich holl bryder a'ch gofalon dychymygol wedi diflanu fel mwg neu gysgod, yr hwn ni saif?

Y mae hyn wedi bod yn brofiad i mi lawer gwaith yn ystod fy oes; ac yr wyf yn sicr, fel y cydeisteddwn gyda'n gilydd o amgylch yr aelwyd yma heno, fod pob un o honoch chwithau, i raddau mwy neu lai, wedi teimlo yn gyffelyb i minau.

Pan y cariom ein baich at y drugareddfa, dylem ei adael yno. Mae y Tad nefol wedi addaw i ni gymhorth; etto i gyd, ymddygwn ni yn rhy fynych yn ymarferol fel pe na ddysgwyliem hyny oddiar ei law. Ni waeth yn mha le y mae angen am y cymhorth, y mae ef yn alluog i'w roddi ar bob adeg y safwn mewn angen am dano, ac yn mha le neu amgylchiad bynag y gallwn fod ynddo.

Efallai fod eich iechyd yn achos o bryder i chwi. Meddyliwch ei fod yn methu ac yn gwaethygu. Gwyddoch nad ydych mor gryf a gwrol ag y buoch. Y mae pethau bychain yn eich aflonyddu. Nid oes genych lawer o bethau da y byd i ymddybynu arnynt, ac yr ydych yn barod i roddi i fyny i anobaith. Os ydych yn fam, gall fod genych reswm i gredu nad oes genych ond amser byr i fyw. Nid ofn marwolaeth sydd yn eich blino, yr hyn ni fuasai i chwi ond megys mynediad adref i'r nefoedd, ac aros dros byth gyda'r Arglwydd; ond pa beth ddeuai o'ch plant wedi eich cymmeryd ymaith? Pwy fuasai yn deall Mari—y plentyn ofnus a gwanaidd, yr hon y mae ganddi er hyny galon wresog a chariadlawn, ac yn sefyll mewn angen am lawer o dy-

nerwch ac addysg briodol? Pa beth fydd neu pwy fydd i reoleiddio Jane wyllt ond gwir fwyn, a John afreolus? Pa law rydd gymhorth i Alice—y babi digymhorth a mwyaf anwyl o'r teulu, oblegyd ei hymddybyniad cyfangwbl ar ereill? Y mae y dychryn a'r pryder o adael eich anwyliaid ar eich ol megys yn yńddangos i chwi yn y pellder. A ddarfu i chwi erioed ddychymygu mai dychryn a phryder o'ch gwneuthuriad eich hunan yw y cyfryw, yr hwn na ddylech adael ar un cyfrif i dywyllu eich rhagolygon am gymmaint â moment?

Y mae yn bossibl ddigon, er eich gwendid a'ch ofnusrwydd presenol, y gallwch fyw am flynyddau meithion etto. Os ewyllys Duw ydyw, gall Efe eich cryfhau ddydd ar ol dydd, a phern i chwi fod yn alluog i ymgymmeryd â'ch dyledswyddau ddydd ar ol dydd, fel y mae yn dyfod. Y mae addewid felus yn y Sahnau, yr hon y gellwch gymhwyso atoch eich hunan: "Digonaf ef â hir ddyddiau, a dangosaf iddo fy iachawdwriaeth." Mae hyn wedi cael ei gyflawnu yn llythyrenol yn mhrofiad lluaws mawr, y rhai a lawenhant yn awr wrth ddeheulaw Duw, lle y mae pleserau ac hyfrydwch diddarfod. Y mae yn ngallu Duw i'ch cadw chwi gyda'ch anwyliaid cyhyd ag y byddo hyny yn angenrheidiol iddynt hwy ac i chwithau.

Y mae yn ei allu i wneyd â chwi fel y gwelo oreu. Os gwel Ef yn oreu i chwi ac iddynt hwythau i'ch cymmeryd ato ei hun, gall eich gwneyd yn berffaith foddlon ac yn berffaith ddedwydd yn ngwyneb myned. Gall Ef eich codi i fyny i diriogaeth lle nad oes dim ond heddwch mewn dysgwyl wrth yr Arglwydd, a lle y mae cyflawnder o lawenydd mewn ymostwng i'w ewyllys Ef. Y mae wedi gwneyd hyn i ereill, a gall wneyd hyny i chwithau. Y peth goreu yw peidio petruso i ormodedd yn nghylch ffyrdd a threfniadau Rhagluniaeth. Gadewch y gofal â'r pryder hwn wrth y groes.

Dichon eich bod yn cael eich aflonyddu a'ch gwasgu i lawr oblegyd cyfnewidiad yn eich sefyllfa, y golled o ryw ddaioni bydol, neu ryw berygl dychymygol agoshaol a niwlog; neu, y mae cyfeillion i chwi wedi myned ar daith beryglus, a gellwch gael eich aflonyddu gan y meddwl y byddant i gyfarfod ag anffawd, neu wedi eu cymmeryd yn sâl ar y ffordd. Yr ydych yn dyfal fyfyrio ar bethau o'r natur hwn, nes y mae pob curiad wrth y drws yn peru i chwi ddychrynu ac arswydo rhag ofn clywed ryw newydd alaethus. Yr ydych yn dyoddef mewn dychymyg ddengwaith mwy nag mewn gwirionedd, pe buasai anffawd wedi cymmeryd lle. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yr ydych chwi a'ch cyffelyb yn aflonyddu eich hunain oblegyd pryder ac ofnau dychymygol a disail.

Yr ydym yn colli llawenydd diolchgarwch pan y treuliwn ac y gwastraffwn amser a nerth mewn pryderon dychymygol. Gadewch i ni ymddiried yn yr Arglwydd, nid yn unig gyda golwg ar y peth mawr all fod yn mhell draw yn y dyfodol, ond am y peth bach sydd wrth law, yr hyn y mae yn rhaid i ni ei gyfarfod a'i benderfynu y dydd hwn.

C. F.

NODYNAU GWASGAROG.

BWRIWCH Y DRAUL.

Os ydyw dyn am fyw bywyd tawel yn y byd, rhedeg yn esmwyth gyda'r *current*, gochelyd drwgdybiaeth ei gymmydogion, a chadw ar yr ochr ddyogel yn nghanol cyffro a chydymgais cymdeithas, gwell iddo beidio bod yn Undodwr. O'r hyn lleiaf, cynghorwn ef i fwrw'r draul yn gyntaf. Feallai fod rhai o honom yn meddwl, ambell waith, fod y teimlad chwerw a fynwesid gynt yn erbyn Undodiaeth wedi lleddfu i raddau pell, a bod yr enwadau uniawngred yn dyfod yn llawer mwy brawdol a chyfeillgar nag oeddent; ond yr ydym yn cael ein dihuno o'r breuddwyd hwn yn fuan gan ryw amgylchiad sydd yn dweyd yn ddigon eglur mai araf iawn yr a y byd rhag ei flaen. Pa ddiwrnod, gyda chyfeiriad at yr hyspysleni sydd ar y muriau, yn cyhoeddi cyfres o bregethau gan weinidogion Undodaidd Ceredigion, dywedai boneddwr wrthym—boneddwr mewn swydd bwysig yn y sir hefyd, un ag y dysgwyliem, oddiwrth un o'i sefyllfa ef dipyn yn rhagor o *intelligence* a llai o ofergoeledd—ei fod yn synu na fuasem yn tynu barn arnom ein hunain am y fath waith. Ychydig amser yn ol yr oedd rhyw frawd o Fethodist am wneyd tipyn o wasanaeth i wir grefydd trwy arwain ffair fisol Llandyssul, yn brynwyr ac yn werthwyr, i lawr i Gapel y Graig, a gwneyd yn "ffieidd-dra annghyfanoddol" o hono yn y man. Gwyr darllenwyr Yr Ymofynydd am y cyfnodolyn chwarterol a elwir *Y Geninen*, papyr sydd yn ymffrostio ei fod yn gwbl rydd oddiwrth enwadaeth, ac yn hollol genedlaethol yn ei amcan. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ynddo gyfres o erthyglau, wedi eu cyfansoddi gan y dynion mwyaf enwog yn y gwahanol eglwysi, mewn atebiad i ofyniadau fel y canlyn, "Paham yr wyf yn Eglwyswr?" "yn Ymneilldwr?" "yn Drefnydd Calfinaidd?" "yn Fedyddiwr?" &c. Wrth weled nad oedd dim son fod neb yn myned i ddweyd "Paham yr oedd yn Undodwr," ysgrifenodd un o'r derbynwyr at y golygydd, i ofyn a fuasai yn caniatau i weinidog Undodaidd i roddi y cwestiwn hwnw a'i ateb yn *Y Geninen*. Daeth gair yn ol i ddweyd, mewn effaith, fod cenedlgarwch *Y Geninen* yn stopio tu yma i Undodiaeth. Yr wyf yn casglu, ynte, mai rhyw *set* o bobl estronol ac esgymmun ydym ni, heb ran na chyfrau yn mywyd cenedlaethol ein gwlad. Bwriwch y draul, gyfeillion, cyn cymmeryd y *step* a'ch amddifada chwi o'ch genedigaeth fraint fel Cymry. Mac'n rhyw gyssur, wedi'r cwbl, fod rhywfaint o barch a

GWAROGAETH YN Y DIRGEL

yn cael eu talu i Undodiaeth hyd y nod yn Nghymru. Nid oes son, mac'n wir, fod un awel o heresi yn aflonyddu yr un o'r enwadau. Nid ydyw hela hereticiaid (*heresy-humbug*) ddim yn grefft mewn *demand* yn y Dywysogaeth, oblegyd nid oes un heretic yn dyfod i'r *open* i gael

cyfle arno. Ond os nad oes heresi yn dangos ei hun yn gyhoeddus yn y pwlpud ac yn y wasg, mae'n ddigon dealledig nad yw'r *article* ddim yn beth dyeithr yn myfyrgelloedd a chynniweirfeydd annghyhoedd llawer o weinidogion a blaenoriaid y bobl sydd mewn cydymdeimlad dirgelaidd â syniadau crefyddol Rhyddfrydig, ond yn teimlo nad yw'r amser wedi d'od etto i'w harddel a'u cymhell yn gyhoeddus. Nid ydym yn siarad heb awdurdod ar y mater hwn. Peth arall o dan yr un pen yw, y defnydd helaeth a wneir o'n llenyddiaeth grefyddol ni gan bregethwyr uniawngred fel *material* yn mharotoad eu pregethau. Cofiwn yn dda glywed Gwilym Marles mewn araeth ddoniol, unwaith, yn desgrifio y dosparth hwn fel "*poachers* ar ein *preserves* ni." Mae Channing, Martineau, Parker, Clarke, Collyer, Hopps, &c., yn ddigon adnabyddus fel awdwyr yn nghylchoedd y weinidogaeth, ac mae'r brodyr yn cael cyfleusdra i bregethu (o bossibl gyda rhywfaint o *fixture* Efengylaidd) mewn pwlpudau lle y byddai eu presenoldeb corfforol yn ffieidd-dra yn ngolwg y saint.—*Unit.*

EMYNYDDIAETH AC UNDODIAETH.

Y lle diweddaf y tybiem y byddai enwadaeth ac ysbryd plaid yn ymwthio iddo, yw llyfr emynau, amcan yr hwn yw cynnorthwyo yr enaid yn ei hiraeth am gymmundeb â Duw a chydffurfiad â'i ewyllys Ef. Ond fel mae yn dygwydd, rhaid i bob enwad gael ei lyfr neillduol ei hun, a'r llyfr hwnw nid yn llaw-lyfr moliant y Goruchaf, ond yn esponiad mewn barddoniaeth o gyffes ffydd yr enwad. Yn unol â'r egwyddor hon, cauir allan bob emyn, os bydd y *catch-words* duwinyddol yn absenol o hono, dim gwahaniaeth pa mor deilwng fyddo fel cyfansoddiad, pa mor brydferth ei syniadau, a pha mor effeithiol bynag y byddo fel cyfrwng rhwng ysbryd dyn a'i Dduw. Edrycher ar *Emynau y Cyssegr*, gan Thomas Gee, Dinbych, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac yn cynnwys 2615 o emynau. Proffesa i fod yn genedlaethol o ran ei gynnwysiad. Ei amcan yw cadw ar glawr gyfoeth emynol Cymru, ac nid yw wedi ei barotoi at wasanaeth un enwad neillduol; ac ymddengys i mi, oddiwrth y rhagymadrodd, y golygai y casglydd iddo fod yn ychwanegiad at lenyddiaeth Gymreig, heb un golwg am ei dderbyniad gan unrhyw eglwys. Mewn llyfr wedi ei gasglu ar yr egwyddor hona, byddem yn dysgwyl i bob emynwr Cymreig o fri gael lle. Ond er fod Mr. Gee yn cydnabod ei ddyled i *Lyfr Emynau* y Parch. R. J. Jones, Aberdar, nid ydym, ar ol manwl chwilio, wedi dyfod o hyd i un emyn o eiddo Iolo Morganwg. Mae yn amheus genym, hefyd, a ydyw Mr. Gee wedi gosod i mewn un emyn o waith Undodwr, heblaw tri phennill o emyn Dafis Castellhywel, "Dy heddwch, Ior, a gwel'd dy wedd," &c., y rhai sydd wedi eu trosglwyddo o gasgliad y Methodistiaid Wesleyaidd; ac y mae yn bossibl na wyddai Mr. Gee fod yr awdwr yn dal cyssylltiad mor agos ag Undodiaeth. Trown at ein brodyr, y Saeson, a chawn weled trefn

arall ar bethau. Mae canolfur y gwahaniaeth, gyda golwg ar emynau, yn mron cael ei dynu i lawr hyd y sail. Yn ystod y flwyddyn hon, cyhoeddwyd casgliad o emynau o dan yr enw, *Congregational Hymns*, gan y Parch. W. Garrett Horder, gweinidog yn yr enwad Cynnulleidfaol neu Annibynol. Yn y llyfr hwn yr ydym wedi cyfrif 66 o emynau, o leiaf, o waith rhyw 30 neu ragor o awduron Undodaidd, yn mhlith y rhai mae enwau Holmes, Bowring, Parker, Sears, Clarke, Hedge, Lamport, S. Longfellow, Emerson, Gaskell, Furness, Martineau, Hopps, Chadwick, &c. Mae y cydymdeimlad ag Undodiaeth, a'r gydnabyddiaeth fod rhywfaint o rinwedd, beth bynag, yn perthyn iddi, os yn gyfyngedig ac yn y dirgel yn Nghymru, yn beth cyhoeddus ac addefedig gyda'r enwadau uniawngred yn Lloegr. Awn yn mlaen

STEP YN MHELLACH,

ac y mae yn dda genym ein bod yn ymbellhau o hyd oddiwrth yspryd y boneddwr a grybwyllais ar y dechreu, yr hwn a synai na byddai dydd barn wedi ein goddiweddyd cyn hyn. Darllenais, yn ddiweddar, fod y Parch. Washington Gladden, un o weinidogion blaenaf yr Annibynwyr, ac un o *champions* mwyaf gwrol y dduwinyddiaeth newydd, fel ei gelwir, yn yr Unol Dalaethau, wedi gosod allan ei farn gyda golwg ar athrawiaeth yr Iawn yn y modd hwn :—"Mae marwolaeth Crist yn effeithiol yn unig mor bell ag mae'n dylanwadu ar ddyn." Dyna ddywed y dduwinyddiaeth newydd yn yr Unol Dalaethau, ond mae'r syniad mor hen ag Undodiaeth. Wel, beth am yr Iawn erbyn hyn? Mae yr athrawiaeth wedi myned trwy gymmaint o gyfnewidiadau, fel y mae yn syndod fod dim o honi yn aros. Mae y syniad hynaf a fu yn ffynu braidd yn gyffredinol yn yr Eglwys am fil o flynyddau fod Crist wedi ein prynu o afael y diafol wedi diflanu yn gyfangwbl. Mae yr ail syniad o eiddo Anselm fod marwolaeth Crist yn foddlonrwydd i gyfiawnder Duw wedi myned o'r golwg, ac wedi ei ganlyn gan yr *idea* fod Crist wedi marw er ei gwneyd yn bossibl i Dduw yn ei lywodraeth i faddeu pechod. Mae'r *idea* hona, yn ei thro, wedi colli ei grym, a'r gosodiad cyffredin yn awr ydyw fod Crist, yn rhyw ffordd neu gilydd, wedi galluogi Duw i faddeu pechaduriaid, 'does neb yn gwybod sut. Ond mae'r dduwinyddiaeth newydd yn ymwadu â hon etto, ac nid oes dim i wneyd mwy ond cofleidio y gwirionedd ag mae Undodiaeth wedi bod yn sefyll drosto erioed. Rhyfedd yw

Y TRAWSFFURFIAD

sydd yn cymmeryd lle yn y blynyddoedd diweddaf hyn yn yr hen dduwinyddiaeth, a hyny braidd yn mhob man tuallan i Gymru. Dim ond ei chysgod sydd yn aros erbyn hyn. Mae y llwgr gwreiddiol wedi rhoddi ffordd i'r ffaith wyddorol fod tueddiadau i ddrwg, yn gystal ag i ddaioni, yn cael eu trosglwyddo i lawr o genedlaeth i genedlaeth; mae y dadleuon poethion yn nghylch etholedigaeth ddiammodol, gallu dyn, parhad y saint mewn gras, a'r cyffelyb, wedi eu claddu mor

ddyogel o'r golwg a thoiliod, canwyllau cyrff, a chwn bendith y mamau. Mae uffern o dywyllwch a gwae wedi ei llyncu gan ddifodiant Edward White, cadeirydd yr Undeb Cynnulleidfaol, neu wedi ei goleuo i fyny gan lewyrchiadau "gobaith tragwyddol" yr Archddiacon Farrar. Yr wyf yn barod yn awr, yn wyneb yr olwg hyfryd gyffredinol hon ar bethau, i gymmeryd calon, ac i deimlo yn falch fy mod yn Undodwr; yr wyf yn barod i aros yn Undodwr, ac i wneyd a allaf dros grefydd sydd yn werth i fyw wrthi, ac yn werth i farw ar ei phwys.

UNIT.

"A ydych ch'i erioed wedi darllen yr *Ancient Mariner?*" ebe Mr. Spurgeon, un tro, wrth ei gynnulleidfa. "Tebyg iawn eich bod wedi ei ystyried yn un o'r dychymygion mwyaf rhyfeddol a osodwyd erioed wrth eu gilydd, ac yn neilldnol y rhan hono lle mae'r hen forwr yn darlunio cyrff yr holl ddynion meirw yn codi i fyny i drafod y llong—dynion meirw yn tynu wrth y rhaff, dynion meirw yn gweithio wrth y llyw, dynion meirw yn agor yr hwyliau. Yr oeddwn inau, unwaith, yn edrych ar hwna fel meddylddrych rhyfeddol iawn. Ond a wyddoch ch'i beth, yr wyf wedi byw i weled y dydd hwnw! Yr wyf wedi ei weled yn cael ei wneuthur! Yr wyf wedi myned i eglwysi, ac wedi gweled dyn marw yn y pwlpud, dyn marw fel diacon, dyn marw yn cario'r plât, a dynion meirw yn eistedd yn y seddau i wrandaw."

CARIAD BRAWDOL.

Pan glywoch ddyn yn siarad llawer am gariad brawdol, ac yn cyhoeddi ei fod bron myned o'r wlad, yr ydych yn clustfeinio. Pan glywoch ef yn dywedyd fod pawb yn awr yn cnoi ac yn traflyncu, yn trafod ac yn trin eu gilydd yn ddiarbed, yr ydych, feallai, yn barod i amheu ac i ddywedyd, "Pwy a'th osododd di yn farnwr ac yn llywodraethwr?" A phan glywoch ef yn anelu ei saethau gwenwynig at y brawd hwn a'r chwaer acw, yr ydych yn teimlo eich hunan yn barod i lefain allan, "Cariad brawdol, yn wir! Ni wyr hwn ddim am dano." Os yw yn ddyledswydd ar Thomas i ddangos cariad brawdol at John, onid yw yr un cymmaint dyledswydd ar John i ddangos cariad brawdol tuag at Thomas? Nid peth unochrog hollol ddylai cariad brawdol fod. Treied John ddogn o hono ar Thomas, a dichon y caiff yn ddisymwth fod Thomas hefyd yn meddu ychydig o'r un rhinwedd. Fe ddywed y gair mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach nâ derbyn. Yr ydym yn ofni yn fynych nad yr hwn sydd wedi dangos fwyaf o gariad brawdol sydd yn galaru fwyaf fod cariad brawdol wedi gadael y byd. Mae cariad yn cynnyrchu cariad. Weithiau er mwyn codi dwfr o'r *winch* mae yn rhaid taflu llestraid o ddwfr i lawr yn gyntaf. Treiwn y cynllun hwnw ar y brodyr, pan dueddir ni nesaf i nodi eu diffyg o

gariad brawdol, a dichon y gwnawn i ffrydiau cariad brawdol ddylifo yn nerthol a dibaid.

Pan oedd yr Arlywydd Harrison yn gadael cartref, fe'i cynghorwyd i gael ci mawr i gadw'r bechgyn rhag lladrata'r ffrwyth o'r berllan. Atebodd yntau, "Byddai yn well genyf gael Athraw Ysgol Sul i ddysgu'r plant rywbeth gwell nag i ladrata." Y mae gan Athraw yr Ysgol Sul waith bendigedig, er nad yw yr athraw ddim bob amser, feallai, yn deall ei waith.

YR INGOEDD AR OL ANGEU.

"Mae rhyw ddychymyg wedi bod geno I oddiar o'wn I'n blentyn bach y byddaf yn syrthio i ryw boen annirnadwy ac annyoddefol y funyd y byddaf farw." Druan o hono, onid e'? Dydi e' ond ieuanc etto, ac y mae eisoes yn myned i gyfarfod â phoenau dychymygol ydynt wedi eu geni yn hollol yn y credoau. Meddylier am foment am ddyn ieuanc, i bob ymddangosiad o rodiad da, ac yn byw y bywyd crefyddol, yn mynychu ei le addoliad yn rheolaidd, ac yn cyfranogi o'i holl fanteision *allanol*, o leiaf; meddylier am un felly yn coleddu y fath syniad. A ydy' e' yn credu yn nefodau a seremoniau ei eglwys? Os felly, be' well yw, onid yw yn cael rhyw waredigaeth oddiwrth yr hunllef hwn? Mae yn credu yn yr offeiriad, ond yn credu mwy yn John Calfin ac athrawiaeth yr etholedigaeth. Os etholedig, etholedig, nad beth ddygwyddo. Os gwrthodedig, gwrthodedig. Pwy sydd yn dywedyd, yn ngwyneb hyn, fod gwaith yr Undodiaid ar ben? Os yw dyn yn byw ar lwybr y nefoedd, yn rhodio taith y bywyd Cristionogol, yn byw yn onest, yn gyfiawn, yn dduwiol, a ydym i gredu mai i uffern mae y cyfryw un yn myned? Os yw dyn yn rhodio llwybr colledigaeth, troed yn ei ol; peidied a gwneuthur drwg, dysged wneuthur daioni, doded ei hunan dan arweiniad yr Iesu, a chyda'r Iesu eled at y Tad Goreu, creded ynddo, ac ymddirieded ynddo. Q. Q.

Y DOCTOR A'R UNDODIAID.

Mi ddygwyddais un tro, ychydig flynyddau yn ol, fod yn yr un *compartment* o'r tren â'r Dr.———, yn myned i fyny i Lundain, a chefais ef yn gwmpeini hapus a dyfyr iawn. Ond yr hyn oeddwn i'n hel ato oedd hyn. Pan ddaethom at ryw stesion, dyma ddau foneddwr yn dyfod i fyny ato, ac yn tori stori ag ef. Wedi ffarwelio â hwy, ac i'r tren gychwyn, ebe fe wrth gyfaill oedd gydag ef, "Wyddoch ch'i pwy oeddynt?" Atebodd y cyfaill na wyddai. Dywedodd yntau eu henwau, ac ychwanegodd mai Undodiaid oeddynt. Yna, pasiodd amryw sylwadau rhwng y ddau. Ni wyddent ddim am danaf fi—beth

oeddwn, nac o ba le yr oeddwn yn dyfod. "Ie, Undodiaid," ebe'r doctor, "ac y mae Undodiaid yn gystal dynion â neb pwy bynag; ond nid oes neb o honynt yn y diwedd yn dysgwyl myned i'r nef yn eu nerth eu hunain. Y maent i gyd yn troi at arall yn nydd cyfyngder." 'Welwch chi mor barod yr ydys i gamarwain mewn perthynas i syniadau pobl ereill. Y mae yn anhawdd credu nad oedd y doctor yn gwybod gwell, a thrachefn y mae'n anhawdd credu ei fod yn bwriadu twyllo. Wrth gwrs, y mae Undodiaid yn troi at arall—maent yn troi eu gwynebau at Dduw. Twyll eu gwrthwynebwyr sydd yn dysgu eu bod yn meddwl myned i'r nef yn nerth eu hunain. Gwnaut hwy fel y gwnaeth eu hathraw—troant at y Tad Goreu. At bwy arall y mynir i ni droi? Yr oedd y Tad yn ddigon da gan yr Iesu. Credwn ei fod yn ddigon da i ninau, yn ddigon galluog, yn ddigon trugarog, ac yn ddigon graslawn. R. T.

Yr oedd yr Ymherawdwr Charles V. yn neillduol hoff ac yn neillduol gywrain mewn perthynas i ffurfiau yr oriawr a'r awrlais. Ond wedi treio lawer gwaith a methu yn deg cael dau i gadw 'u gilydd yn gywir, meddyliodd mai gwaith ffol oedd iddo wastraffu cymmaint o amser a llafur yn yr ymdrech fwy ofer i ddwyn dynolryw i unffurfiaeth berffaith mewn perthynas i bynciau dadleuol crefydd.

DETHOLIADAU O'R BEIBL.

Mewn cyfrol dlos o weddiau ar gyfer addoliad Cristionogol, gan Dr. Saddler, un o weinidogion yr Undodiaid yn Llundain, cynnwysir rhestr dra chyflawn o ddetholiadau Ysgrythyrol priodol i'w darllen mewn addoliad cyhoeddus neu deuluaidd. O'm rhan fy hun, yr oeddwn wedi bod yn edrych er ys amser am ryw gymhorth o'r fath. Yr oedd cylch y pennodau wedi myned yn gyfyngedig, a gyrid fi i ddarllen y rhai dewisol yn rhy aml. Yn y rhestr hon mae meddyginiaeth barod ac effeithiol i'r diffyg hwn. Mae y detholiadau wedi eu gwneyd gyda llawer iawn o ofal, ac nid oes berygl i ddylyn cyfarwyddyd un fel Dr. Saddler sydd mor adnabyddus am ei chwaeth a'i ysprydolrwydd. Er budd i ereill ydynt, feallai, yn llafurio o dan yr un anfantais â minau, cymmeraf y rhyddid i gyfleu darn o'r rhestr yn mhob rhifyn dyfodol o'r Ymofynydd hyd nes ei therfynu. Rhoddaf ddetholion o'r ddau Destament bob tro:—*Hen Destament*—Genesis xiii.; xviii. 16—diwedd; xxviii. 10; xxxii. 1—30. Exodus xx. 1—24. Lefiticus xix. 1—4, 9—18, 32—diwedd. Deuteronomium v. 1—21; v. 27—vi. 9; viii.; x. 12—xi. 1; xxx. 9—diwedd; xxxii. 1—12. 1 Samuel iii. 1—18. 2 Samuel xii. 1—9. 1 Breninoedd iii. 1—15; viii. 12—30; viii. 31—34, 38—43, 57—61; xix. 1—12. 2 Breninoedd v. 1—14. *Testament Newydd*—Matthew iii.; iv. 1—11; v. 1—16; v. 17—26, 33

—diwedd; vi. 1—23; vi. 24—vii. 12; vii. 13—diwedd; ix. 9—17, 35—diwedd; x. 1—31; xi.; xii. 1—21, 46—diwedd; xiii. 1—23; xiii. 24—diwedd; xiv.; xv. 1—14, 21—31; xvi.; xvii. 1—21; xviii; xix. 13—diwedd; xx.; xxi. 23—diwedd; xxii. 1—40; xxiii.; xxv. 1—30; xxv. 31—diwedd; xxvi. 1—30; xxvi. 31—56.

W. J.

(I'w barhau.)

BETH YDY E O WERTH?

Pan fyddo ambell un farw, mae yn ofyniad cyffredin, Beth ydy e o werth? A golygir wrth *werth*, y meddiannau mae yn adael *ar ol*. Pa faint fydd ei berthynasau yn well o'i blegyd? Nid yw efe wedi myned â'r cyfoeth hwnw y sonir cymmaint am dano gydag ef. Fe ystyrid y diweddar Peter Cooper y dyn cyfoethocaf yn New York; ac yr wyf yn cofio darllen am hen wraig "Er bod yn dlawd mewn cyfoeth byd, fod ganddi olud hawddgar." Nid yw y cyfoethocaf ond llwm yn angeu, os nad oes ganddo rywbeth heblaw aur ac arian. Mae arian ac aur yn burion yn eu lle, nid yw eu lle, fodd bynag, ond dros dymhor. Maent yn dda iawn o'u hiawn-ddefnyddio, ond yn wreiddyn llawer drwg o'u camddefnyddio. Maent yn help ar y daith ddaearol ond dim pellach. Ni fydd dim eisieu wedi'n hyd y nod y dernyn grot i'r porthwr. Dywedid fod Peter Cooper yn werth miliwn o bunnau. Ni fyddai ond tlawd wedi'r cwbl, oni fyddai yn werth rhywbeth heblaw hyny. Ie, tlawd yw y dyn nad yw yn werth dim ond arian. Dywedai Robert Collyer yn angladd Peter Cooper, nad oedd un doler o'r miliynau ag oeddynt yn eiddo iddo, nas gallasai Peter ei chymmeryd yn ei law a'i chario hyd at yr orsedd wen fawr, a'i gosod i lawr yno yn gwbl ddigryn. Yr oedd ei gyfoeth erioed wedi bod, nid yn feistr arno, ond yn was da, yn cyflawnu gwaith da—gwaith sydd yn parhau etto i'w ganmol yn y pyth.

AR WIN A SAC CAERSALEM WIW!

Yr oeddwn yn y trên, Mr. Gol., ac yr oedd pob peth yn dawel ac yn hapus iawn nes i ni ddyfod i orsaf Bryncerdin, yn swydd ———, pan ddeallais fod rhyw gyffroad mawr ar y llwyfan. Meddyliais fod ffair fawr wedi bod yn y gymmydogaeth. Yr oedd clebrsain y tafodau, a thrydar y traed yn awgrymiadol o hyny, ac erbyn bod y drysau yn agored, yr oedd pob dosran o'r cerbyd yn llawn. Teimlwn yn bob peth ond cyssurus. Yr oedd y swn yn aflafar, a chyn pen ychydig funydau, yr oedd lluaws o eneuau anadgenedledigion, fel y tybiwn I, wedi llanw y lle â mwg tybaco. Ymddygent yn mhob peth mor debyg i ddynion y byd, y siarad uchel, y iaith isel, y canu bratio*g*—Cherry-Hugh-Salem! Hugh Salem!! Hugh Salem!!! a'r clebran disynwyr,

a'r celwydd noeth, fel y darfu i mi synu yn ddirfawr i glywed nad dychwelyd o'r ffair oeddynt, ond dychwelyd o Gymmanfa Gerddorol; nad yn feddw ar ddiodfregyn Davis y "Lion" oeddynt, ond dipyn bach yn llawen, *elated* d'lywed y Sais, ar yr hyn a ddesgrifir gan hen emynwr Methodistaidd ar adeg un o'r diwygiadau crefyddol gynt, fel "gwin a sac Caersalem wiw!" B.C.D.

Y GREDO IAWN.

Mewn poenau dwys yr oedd milwr yn gorwedd, ac yn mron marw, yn yr yspytty. Daeth ymwelydd ato, a gofynodd iddo, "I ba eglwys yr ydych yn perthyn?" "I Eglwys Crist," ebe yntau. "Nid dyna wyf yn feddwl. Beth yw eich credo?" "Credo, credo!" ebe'r dyn, a'i lygaid yn edrych tua'r nefoedd, ac yn ymddangos yn llawn cariad at ei Waredwr; "Yr wyf yn *credu* nas gall nac angeu nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na phethau presenol na phethau i ddyfod, nac uchder na dyfnder, nac un creadur arall, fy ngwahanu I oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu."

Gwae'r dyn hwnw sydd wedi colli ei ffydd mewn egwyddor, ei ffydd mewn dyn, ac uwchlaw pobpeth, sydd wedi colli ei ffydd mewn menyw! Os gwelaf, os clywaf ddyn yn llefaru geiriau anmharchus am fenyw, mae fy nghalon yn tristâu wrth feddwl fod ganddo fam wedi bod unwaith, a'i fod yn *insulto*'r cof am dani. Yr wyf yn teimlo ato fel y mae'r Ysgrythyr yn ein hanog i deimlo at y diafol ei hunan. Gwrthwynebwch ef! Ffowch oddiwrtho!—*Beecher.*

Manion a Hanesion.

WRTH FYNED I GYSGU.

Iti, Dad, etto dodaf—ogoniant,
Ac yna mi ganaf;
Ac wedi nos, codi wnaf
Am Dduw eilwaith meddyliaf.

—*Eben Fardd.*

Mae mor naturiol i ddynion adeiladu dinasoedd ag yw i adar adeiladu nythau.

Dywed Pomponius Mela mai y Phœniciaid oedd y cyntaf i ddyfeisio llythyrenau a gwneuthur llyfrau.

Rhaid fod cymdeithas yn hir cyn fod iaith, meddai Monboddo.

Crefydd yw y warant sicraf y dichon dyn gael am onestrwydd dyn.—*Montesquieu.*

Daliai Spinoza mai Duw oedd pob peth, a bod pob peth yn Dduw.

Meddai Berosus, "y dygwyddiad mawr cyntaf mewn hanes oedd ymddangosiad Oannes, dyn y môr.

Pan ddywedodd offeiriad yn Rhufain fod Petr wedi ei hawlio yn brif esgob neu bab mor foreu â'r ail ganrif, atebodd Theodore Parker, trwy ddywedyd nad

oedd celwydd yn ddim gwell oblegyd ei fod yn hen.

Nid yw goleuni ond yn unig i'r llygad sydd yn gallu gweled, megys y mae cariad i'r galon sydd serchiadol, felly'r bywyd ysprydol nid yw ond i'r natur ysprydol.

Mae geiriau celyd fel cenllysg yn yr haf, yn curo i lawr ac yn dystrywio yr hyn a feithrinent pe toddid hwy yn ddefnynau.

PAN fyddo'r meddylddrych o bleser yn taro ar eich dychymyg, ceisiwch wneuthur cyfrif cywir rhwng parhad y pleser a pharhad yr edifeirwch sydd yn debyg o ganlyn y pleser.

Y goreu o lyfr yw, nid y meddwl y mae yn gynnwys, ond y meddwl mae yn awgrymu, megys y mae swyn cerddoriaeth yn gorwedd, nid yn y seiniau, ond yn yr adseiniau *(echoes)* yn ein calonau ein hunain.—*O. W. Holmes.*

YR ANADL.

Anadl wen! ei doleni—yw'm cadwen,
Yn fyw'm cedwir trwyddi;
A'i ddyrnod ryw ddydd arni,
Tyr angeu fwlch—trengaf fi.
—*Gwilym Eryri.*

Ein meddyliau mawrion, ein serchiadau dyfnion, gwirioneddau ein bywyd, nid ydynt byth yn ein gadael. Yn sicr, nis gallant ymwahanu oddiwrth ein hymwybodolrwydd, hwy a'i dylynant i ba le bynag yr aiff hwnw, ac y maent yn eu natur yn Ddwyfol ac anfarwol.—*Thackeray.*

CWMBACH.—Er cynddrwg yr amser yn y lle hwn a'r cymmydogaethau amgylchynol, buwyd yn llwyddiannus i gael tê parti da iawn yn ein hysgoldy, dydd Iau, y 3ydd o Fehefin, pryd y daeth yn nghyd nifer lluosog o gyfeillion o Ferthyr, Dowlais, Cefncoed, ac Aberdar, i estyn llaw o gymhorth i'r brodyr yn y lle hwn. Teimlwn yn ddiolchgar i'r oll o honynt am eu caredigrwydd. Yr oedd yr ysgoldy wedi ei addurno yn brydferth, a gwasanaethwyd wrth y byrddau gan foneddigesau ieuainc y lle yn benaf. Da genym ddweyd i gyfiawnder gael ei wneyd â'r pethau da osodwyd o flaen yr ymwelwyr, y rhai a rifent dros dri chant. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod hwylus yn y capel, yr hwn oedd orlawn. Blaenor y canu oedd Mr. G. Thomas, a chymmerodd Miss Morgan ofal o'r berdoneg. Llywyddwyd gan Olygydd YR YMOFYNYDD, a siaradwyd ychydig eiriau yn fyr ond i bwrpas gan y Parch. John Joseph George ac ereill. Erbyn deg o'r gloch, torodd y cwrdd i fyny, ac aeth pawb adref wedi eu boddloni, gallem feddwl, yn y wledd gorfforol a meddyliol oeddynt wedi eu mwynhau.—U. O. Y.

ER COF AM ELEANOR,

Unig blentyn Dafydd ac Esther Hughes, Rhydyfydr, Ystrad Ayron, yr hon fu farw Ionawr 26, 1885, yn 9 mlwydd oed. (Gwel "Yr Ymofynydd," am fis Mawrth.)

Anfonaf, drwy'r "YMOFYNYDD,"—air bach
Ar bwnc dwys i Dafydd
Ac Esther yn eu cystudd
Am Nel fach,—mwyn olew fydd.

Yr oedd gwên hardd ei gwyneb—dengar
Yn dangos boddineb,
A gwawr anwyl gwirineb,
Heb fod draws oer naws i neb.

Yn ei dymhor rhoddai damaid—o galon
Lle gwelai'r angenrhaid,
Ewyllys rydd, nid llais rhaid,
Yn lloni ei holl enaid.

O law a phen 'hen fenyw,'—o'r awydd
Yr ieuanc ddiledryw,
Ond yn ei bedd mae heddyw,
A'i lle yn wag a'i llaw'n wyw.

Awr ddu, drwy gladdu'n y glyn—eich
Ie'ch unig blentyn, [anwyl,
Eich haf yn auaf newyn
Yn ddu-oer aeth oddiar hyn.

Mynu wylo am na welwch—eich Nel,
Uwch niwloedd a th'wyllwch,
Y llygad gawn yn llawn llwch,
O waeledd, ond pa'm wylwch?

Gofynwch yn nhrigfanau—tŷ fy Nhad,
Tu fewn hwn mae'n ddiau;
Yno mae Nel yn mwynhau
Y gorwych nefol gaerau.

Canu a dysgu y dôn—a gerir
Gan gorau'r angylion;
Yn hyf a hwyl nefolion,
Hoenus yw yn ninas Ion.

Arweiner chwi ar unwaith—i ganfod
Y deg wynfa berffaith;
Gwynebwch bob gwanobaith,
Duw fo'ch tŵr a da fo'ch taith.
—*Bayron.*

Marwgofion.

Mawrth yr 22ain, yn 72 oed, Margaret, anwyl briod John Jones, Beulah Row, Rumni. Bu yr ymadawedig yn lled wanaidd ei hiechyd am y tair blynedd diweddaf o'i bywyd, ond dyoddefai y cyfan yn dawel, â'i hymbwysiad ar ei Thad nefol, gan gredu ei fod yn ymddwyn yn dyner tuag ati yn mhob amgylchiad. Yr oedd yn un o deimladau haelionus, parod bob amser i wneuthur a allai er helpu y gwan. Yr oedd yn briod serchog ac yn fam ofalus, yn Undodwraig selog a goleuedig, ac yn derbyn YR YMOFYNYDD oddiar ei gychwyniad cyntaf, gan ddwyn mawr sêl drosto. Genedigol oedd o Sir Aberteifi, a merch i'r diweddar Job Enoch, o'r Hen Ardd, Ystrad. Gadawodd i alaru ar ei hol weddw oedranus a phump o blant, a llawer o wyrion, ond na fydded iddynt alaru fel rhai heb ganddynt obaith, ond bydded iddynt fod yn barod i gyfarfod â'r un dynghed. Y dydd Iau canlynol, daeth tyrfa luosog i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn Mynwent Eglwys Rumni. Darllenwyd y gwasanaeth arferol gan y Parch. Canon Evans.

Ebrill y 3ydd, Hannah Williams, Tygwyn, ger Clydach, yn 71 mlwydd oed. Bydd yn flin gan lawer o weinidogion yr enwad ddeall ei bod wedi ei chludo i dŷ ei hir gartref, canys yr oedd bob amser yn serchog a groesawus, fel y teimlai pob un gartref yn y Tygwyn, pan yn ymweled â Gellionen. Yr oedd ein hen chwaer ymadawedig yn wraig rinweddol yn y gwir ystyr o'r gair, o gynneddfau naturiol cryf, yn llanw ei lle yn anrhydeddus, pa le bynag y byddai, ac o deimlad crefyddol dwfn. Nid annyddorol, feallai, fyddai nodi fod Mrs. Williams wedi bod yn garedig iawn i'r Hybarch Mr. James, Gellionen, yn ei ddyddiau diweddaf. Pan yn glaf ac yn fethedig iawn, heb y driniaeth a'r gofal dyladwy yn yr amser blin hwnw yn ei gartref, cymmerodd ei hen weinidog i'w thŷ ei hun, ac a'i hymgeleddodd. Daeth yn well; dychwelodd i'w annedd ei hun yn Vardre; ond ni pheidiai ei gofal hi am dano. Cof gan yr ysgrifenydd, yr hwn a safai gyda hi wrth ei wely, mai hi weinyddodd iddo â llaw dyner a charedig pan anadlodd yr hen bererin ei anadl olaf. Bu ein chwaer ymadawedig yn ddiwyd a llafurus yn ystod ei bywyd, a bu iddi ran gymmedrol o bethau'r byd hwn, a byddai hi a'i theulu fyw yn gyssurus iawn. Yr oedd yn wir barchus a chymmeradwy yn ardal a chymmydogaeth ei phreswylfod. Dangoswyd hyn ar ddydd ei hangladd: er gwlyped yr hin y dydd hwnw, daeth nifer lluosog o gyfeillion a pherthynasau yn nghyd i dalu iddi'r gymmwynas olaf. Claddwyd hi yn y Gellionen, lle yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlon a selog dros yr achos yn mhob rhyw fodd am flynyddau lawer, y Mercher canlynol. Mae yr eglwys yn teimlo colled nid bychan ar ei hol. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan yr ysgrifenydd, yn ol ei dymuniad, a phregethodd ei phregeth angladdol yn mhen mis ar ol hyny. Gadawodd lysfab a'i blant, sef dwy ferch a mab, yr hwn sydd yn Awstralia, ac un chwaer, i alaru ar ei hol. Hi ddygodd y ddwy ferch i fyny er yn blant, gan eu bod wedi colli eu mam. Hwy deimlant yn flin a hiraethlon iawn ar ei hol. Gobeithiwn, er wedi colli "mamgu," fel ei galwent, yr hon oedd wedi bod yn fam dyner a gofalus iawn am danynt, y bydd iddynt, yn ystod eu bywyd, fel yn ddiamheu y gwnant, edrych ar fangre ei gorphwysfa, yn hen Fynwent Gellionen, yn fangre gyssegredig; ac na alarant yn ormodol, fel rhai heb obaith.—JNO. EVANS, Trebannos Cottage.

Mai yr 11eg, yn Mryndelyn, Sychbant, Llanwenog, yn 88 oed, Margaret Evans. Bu yn dihoeni o dan bwys henaint a methiant am flynyddoedd lawer, ac yr oedd yn syndod i'r rhai a'i hadnabyddai sut yr oedd wedi byw cyhyd. O'r diwedd, daeth dydd ei rhyddhad, ac aeth i fewn i'w gorphwysfa. Hi oedd aelod hynaf Llwynrhydowen, wedi ymaelodi, yn debygol, yn amser Dafis, Castellhywel. Ddydd ei hangladd, y Gwener canlynol, pregethodd y Parch. J. Davies, Alltyplacca, oddiar ei thestyn dewisedig, "Mi a ymdrechais ymdrech deg," &c.—geiriau oeddent yn ddiamheu yn gosod allan brofiad ei bywyd hir a'r gobaith mewn canlyniad. Claddwyd yn hen fynwent y Llwyn, a chyflawnwyd y gwasanaeth gan y gweinidog.

Mehefin y 9fed, Edward Williams, Ysw., Cleveland Lodge, Middlesborough, yn 60 mlwydd a 4 mis. Mab oedd i Taliesin Williams, ac wyr i Iolo Morganwg.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.